

No.

PWYLLGOR CRAFFU BYW'N IACH A GOFAL CYMDEITHASOL

Cofnodion cyfarfod anghysbell a gynhaliwyd ar 6 Medi, 2022.

Mae-r Agenda ar [gael yma](#).

Mae recordiad y cyfarfod ar gael [yma](#).

Yn Bresennol: Y Cynghorydd J.E. Charles (Cadeirydd); Y Cynghorydd N.C. Thomas (Is-Gadeirydd); Cynghorwyr G.M. Ball, C.A. Cave, A.M. Collines, C.M. Cowpe, S. Lloyd-Selby, J. Lynch-Wilson, J.M. Norman, H.M. Payne a C. Stallard.

Hefyd yn bresennol: Cynghorwyr L. Burnett (Arweinydd Gweithredol ac Aelod Cabinet dros Berfformiad ac Adnoddau), G. John (Aelod Cabinet dros Hamdden, Chwaraeon a Lles) a E. Williams (Aelod Cabinet dros Gofal Cymdeithasol ac Iechyd).

217 CYHOEDDIAD -

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Cadeirydd y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngwrdd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol."

218 YMDDIHEURIAD AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd hwn gan y Cynghorydd R. Fisher.

219 COFNODION –

ARGYMHELLWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 5 Gorffennaf, 2022 fel cofnod cywir.

220 DATGANIADAU BUDDIANT –

Gwnaeth y Cynghorydd S. Lloyd-Selby ddatganiad o ddiddordeb yn Eitem 11 ar yr Agenda - Adroddiad Monitro Cynllun Cyflawni Blynyddol: Perfformiad Chwarter 1 2022/23. Dywedodd y Cynghorydd fod ganddynt ollyngiad gan y Pwyllgor Safonau i siarad yn unig ar faterion yn ymwneud â Teleofal a Gwasanaethau Pecyn Gofal yng nghyfarfodydd Cyngor Bro Morgannwg.

221 CYNGOR BRO MORGANNWG: CALENDR PERFFORMIAD BLYNYDDOL 2022/23 (CYF) –

Cyflwynodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol y cyfeirnod o gyfarfod y Cabinet ar 7 Gorffennaf, 2022 a amlinellodd y cynlluniau allweddol a'r adroddiadau y byddai'r Aelodau'n eu hystyried drwy gydol y flwyddyn. Amlinellodd yr adroddiad hefyd sut yr oedd y Cyngor yn bwriadu ymgysylltu â'r garfan newydd o Aelodau etholedig wrth lunio'r prosesau, y cynlluniau a'r adroddiadau allweddol sy'n cyd-fynd â'r Calendr Perfformiad Blynyddol er mwyn galluogi'r Cyngor i fodloni gofynion perfformiad newydd Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (Deddf Lle) a chyfrannu at nodau cenedlaethol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Tynnodd y Cyfarwyddwr sylw'r Pwyllgor at Atodiad A yr adroddiad a oedd yn cynnig dull o ymgysylltu â'r Aelodau ar Fframwaith Rheoli Perfformiad y Cyngor drwy'r Calendr Perfformiad Blynyddol o weithgareddau er mwyn datblygu eu sgiliau a'u gwybodaeth a chryfhau eu hymwneud â gwaith llunio a mireinio'r cynlluniau, yr adroddiadau a'r prosesau allweddol a fyddai'n eu cefnogi yn eu rôl allweddol o asesu a oedd y Cyngor yn cyflawni ei Amcanion Lles, yn sicrhau gwerth am arian ac yn gwella lles ei ddinasyddion.

Heb dderbyn unrhyw sylwadau na chwestiynau, gwnaeth y Pwyllgor wedyn

ARGYMHELLWYD – Y dylid nodi Calendr Perfformiad Blynyddol Bro Morgannwg 2022/23 a'r dull arfaethedig o ymgysylltu ag Aelodau yn ystod y flwyddyn i lunio a mireinio'r Calendr Perfformiad Blynyddol a phrosesau, cynlluniau ac adroddiadau cysylltiedig.

Rheswm dros yr argymhelliad

Gan ystyried cynnwys adroddiad y Cabinet i fodloni'r gofynion perfformiad newydd yn unol ag Adran 114 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

222 CAU CYFRIFON REFENIW 2021/22 (CGC) –

Cyflwynodd Rheolwr Gweithredol Cyfrifeg yr adroddiad, a'i ddiben oedd rhoi gwybod i'r Aelodau am sefyllfa ariannol dros dro'r Cyngor ar gyfer blwyddyn ariannol 2021/22 ar ôl cwblhau'r cyfrifon.

Dywedodd y Swyddog fod sefyllfa refeniw diwedd blwyddyn gyffredinol y Cyngor yn amrywiol andwyol o £13k ar ôl trosglwyddiadau net i gronfeydd wrth gefn o £18.151m. £12.510 oedd gan Gronfa'r Cyngor ar 31 Mawrth 2022.

Roedd y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol wedi derbyn swm sylweddol o Arian Grant Ychwanegol gan Lywodraeth Cymru a oedd wedi galluogi trosglwyddiad net i gronfeydd wrth gefn ar gyfer y gwasanaeth o £2.575m.

No.

Nid oedd y Gwasanaeth Hamdden wedi llwyddo i gyflawni'r arbedion a ddyrannwyd yn llawn yn ystod y flwyddyn ac felly adroddwyd gorwariant bach ar ddiwedd y flwyddyn a gafodd ei wrthbwyso gan danwariant mewn mannau eraill yn y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdogaeth a Thai.

Gosodwyd targed effeithlonrwydd o £500k ar gyfer 2021/22 ac o hyn, roedd targed arbedion refeniw o £79k wedi'i osod ar gyfer y Gwasanaethau Cymdeithasol a gafodd ei fwrw'n llawn yn ystod y flwyddyn. Cafodd targed arbedion £56k y Gwasanaethau Hamdden ei fwrw'n rhannol a byddai'r gwasanaeth yn gweithio tuag at gyflawni'r arbediad yn llawn yn ystod 2022/23.

Mewn ymateb i eglurhad gan y Cynghorydd Lloyd-Selby ynghylch y rheswm dros yr amrywiant ffafriol o £315k ar gyfer y gyllideb Lleoliadau Maeth, fel y nodir ym mharagraff 2.15 yr adroddiad, dywedodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol fod y gyllideb ar gyfer talu lwfansau a thaliadau i ofalwyr maeth a thaliadau am sgiliau yn unol â chanllawiau cenedlaethol a chafwyd cynnydd blynyddol yn y rhain yn ogystal â chynnydd arfaethedig yn niferoedd gofalwyr maeth y Cyngor o flwyddyn i flwyddyn. Byddai'r amrywiant yn gostwng yn raddol dros amser wrth i nifer y gofalwyr maeth wedi'u recriwtio i'r Cyngor gynyddu.

Heb unrhyw sylwadau na chwestiynau pellach, gwnaeth y Pwyllgor wedyn

ARGYMHELLWYD -

- (1) Nodi'r mesurau ariannol a gymerwyd ac a gynigir.
- (2) Nodi cyllideb ddiwygiedig Derfynol 2021/22, fel y nodir yn Atodiad 1 i'r adroddiad.

Rheswm dros yr argymhellion

(1&2) O ystyried cynnwys yr adroddiad a'r gyllideb ddiwygiedig ar gyfer 2021/22 sy'n adlewyrchu cynnydd yn y Grant Cynnal Refeniw a ddyfarnwyd gan Lywodraeth Cymru yn ystod 2021/22 yn ogystal â'r mesurau ariannol a gymerwyd ac a gynigir.

223 CAU CYFRIFON CYFALAF 2021/22 (CGC) –

Cyflwynodd Rheolwr Gweithredol Cyfrifeg yr adroddiad. Ei ddiben oedd rhoi gwybod i'r Aelodau fod cyfanswm y gwariant cyfalaf yn ystod y flwyddyn yn £66.411m a oedd yn gofyn am £1.191m o gronfeydd wrth gefn.

Tynnodd y Swyddog sylw'r Pwyllgor at baragraff 2.5 yr adroddiad a nododd lithriad o £249k ar gyfer Prosiect Adnewyddu 4 Carys Close y Gronfa Gofal Integredig. Roedd y tendr isaf a dderbyniwyd yn fwy na dwbl yr arian oedd ar gael. O'r herwydd, cafodd y prosiect ei ohirio am sawl mis oherwydd yr angen am beirianeg gwerth helaeth o'r prosiect. Roedd yn rhaid nodi arian ychwanegol i alluogi'r prosiect i fynd ymlaen hefyd o Gronfeydd Wrth Gefn y Gwasanaethau

No.

Cymdeithasol. Gofynnwyd felly trwy bwerau brys bod £249K yn cael ei gario ymlaen i Raglen Gyfalaf 2022/23.

Heb dderbyn unrhyw sylwadau na chwestiynau, gwnaeth y Pwyllgor wedyn

ARGYMHELLWYD – Nodi'r sefyllfa gyfalaf diwedd blwyddyn ar gyfer blwyddyn ariannol 2021/22.

Rheswm dros yr argymhelliad

O ystyried cynnwys yr adroddiad a'r sefyllfa gyfalaf diwedd blwyddyn ar gyfer blwyddyn ariannol 2021/22.

224 CHWARAEON A CHWARAE: DIWEDDARIAD (CAT) –

Cyflwynodd y Rheolwr Gweithredol dros Wasanaethau Cymdogaeth, Byw'n Iach a Pherfformiad gyda chymorth y Prif Swyddog Byw'n Iach yr adroddiad a oedd yn nodi'r gwaith a wnaed gan dîm Chwaraeon a Chwarae'r Cyngor yn ystod y cyfnod rhwng mis Ebrill 2021 a mis Mawrth 2022.

Tynnodd yr adroddiad sylw at lawer o'r mentrau llwyddiannus a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn gan gynnwys cymorth i glybiau, Haf o Hwyl, y Cynllun Pàs Aur, Gaeaf Llawn Lles, a darparu cynlluniau chwarae. Rhoddwyd cyflwyniad PowerPoint byr a nododd astudiaethau achos manwl a amlygodd effaith mentrau ar draws ystodau oedran ac a gefnogodd y cyflawniadau allweddol ar gyfer y flwyddyn fel y nodir ym mharagraff 2.4 yr adroddiad.

Dominyddwyd y cyfnod a adroddwyd gan ailsefydlu ac adfer gwasanaethau yn dilyn y pandemig ac felly roedd yn wahanol i'r hyn a brofwyd o'r blaen ond roedd y tîm unwaith eto wedi dangos ei hyblygrwydd a'i allu i addasu.

Yn dilyn cyflwyniad y Swyddog, nododd yr Is-gadeirydd sylw yn yr adroddiad lle'r oedd aelod o'r cyhoedd wedi nodi y byddai'n ddefnyddiol i'r prosiect y Pàs Aur gael ei hyrwyddo'n ehangach gan awgrymu bod y Cyngor yn ystyried hyrwyddo'r cynllun trwy ddulliau amgen yn ogystal â sianeli cyfryngau cymdeithasol y Cyngor. Gwnaeth y swyddogion gydnabod manteision hyrwyddo digonol a byddent yn parhau i gynyddu dulliau cyfathrebu ochr yn ochr â'r rhai sydd eisoes wedi'u sefydlu.

Adleisiodd y Cadeirydd ddiolch yr Aelod Cabinet i staff y Tîm Chwaraeon a Chwarae am eu gwaith da a'u hymdrechion parhaus a gwnaeth ganmol y swyddogion ar adroddiad llwyddiannus a chadarnhaol. Cynigiodd y Cadeirydd wedi hynny i'r adroddiad gael ei atgyfeirio at y Cabinet i'w ystyried. Gyda'r cynnig yn cael ei eilio a'i basio, gwnaeth y Pwyllgor wedyn

ARGYMHELLWYD -

(1) Nodi'r wybodaeth yn yr Adroddiad Diweddarau Blynyddol ar Chwaraeon a Chwarae.

No.

(2) Y dylid cyfeirio Adroddiad Diweddarau Blynyddol Chwaraeon a Chwarae i'r Cabinet i'w ystyried.

(3) Bod Adroddiad Blynyddol pellach ar weithgareddau Tîm Datblygu Chwaraeon a Chwarae'r Cyngor yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor ym mis Medi 2023.

Rhesymau dros yr argymhellion

(1) O ystyried cynnwys yr adroddiad a'r gwaith da sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd gan Dîm Datblygu Chwaraeon a Chwarae'r Cyngor.

(2&3) Sicrhau bod yr holl Aelodau Etholedig yn cael gwybod am y gwaith da sy'n cael ei wneud gan Dîm Datblygu Chwaraeon a Chwarae'r Cyngor.

225 ADRODDIAD AR SEFYDLOGRUYDD Y FARCHNAD CAERDYDD A BRO MORGANNWG 2022 (CGC) –

Dywedodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol fod Adran 144B o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ('Deddf 2014') yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Lleol baratoi a chyhoeddi adroddiadau sefydlogrwydd y farchnad bob pum mlynedd a'r adroddiad gerbron y Pwyllgor oedd Adroddiad Sefydlogrwydd y Farchnad (ASF) cyntaf Caerdydd a Bro Morgannwg.

Roedd angen darllen yr (ASF) ochr yn ochr ag Asesiad Anghenion Poblogaeth Caerdydd a Bro Morgannwg ac Asesiad Lles Bro Morgannwg i gael dealltwriaeth gynhwysfawr o anghenion gofal a chymorth y boblogaeth a gallu'r farchnad i fodloni'r anghenion hynny.

Cynhaliwyd yr ASF rhwng mis Hydref 2021 a mis Gorffennaf 2022. Defnyddiwyd yr ymgysylltu pwrpasol a wnaed yn ystod datblygu Asesiad Anghenion y Boblogaeth yn ogystal â data ac adroddiadau presennol i lywio'r ASF, ochr yn ochr â gwaith ymgysylltu pwrpasol ar ffurf grwpiau ffocws gyda gweithwyr proffesiynol a darparwyr.

Roedd gwelliannau wedi'u gwneud mewn gwasanaethau gofal a chymorth ar draws pob grŵp poblogaeth ers Asesiad Anghenion y Boblogaeth yn 2017, er gwaethaf heriau COVID-19. Roedd COVID-19 wedi cael nifer o effeithiau, gan gynnwys galw cynyddol am wasanaethau, yn enwedig iechyd meddwl, a newid modelau darparu ar gyfer llawer o wasanaethau. Fodd bynnag, lle'r oedd fwyaf priodol, roedd gwasanaethau'n dychwelyd i'w modelau darparu cyn COVID-19. Byddai angen monitro'n barhaus yr effaith mwy hirdymor ar anghenion gofal a chymorth poblogaeth Bro Morgannwg, a sefydlogrwydd y farchnad i sicrhau digonolrwydd y farchnad.

Byddai'r ASF yn cael ei ystyried gan y Cabinet ar 3 Hydref 2022.

No.

Mewn ymateb i ymholiad gan aelod o'r pwyllgor ynglŷn â'r gofyniad adrodd blynyddol, dywedodd y Cyfarwyddwr y byddai'r gofyniad yn cael ei ystyried maes o law gan y Bwrdd Comisiynu Rhanbarthol.

Ar ôl ystyried cynnwys yr adroddiad a'r ASF drafft gyda hyperddolenni, gwnaeth y Pwyllgor wedyn

ARGYMHELLWYD – Nodi cynnwys Adroddiad Sefydlogrwydd Marchnad Caerdydd a Bro Morgannwg.

Rheswm dros yr argymhelliad

Gan ystyried cynnwys yr adroddiad cyn iddo gael ei ystyried gan y Cabinet a'r Cyngor Llawn.

226 ADRODDIAD BLYNYDDOL TÎM INTEGREDIG CYMORTH I DEULUOEDD BRO MORGANNWG A CHAERDYDD 2021-22 (CGC) –

Dywedodd y Rheolwr Gweithredol dros Wasanaethau Plant a Phobl Ifanc fod gan y Tîm Cefnogi Teuluoedd Integredig (TCTI) ei wreiddiau yn Strategaeth Plant Agored i Niwed Llywodraeth Cymru. Y fframwaith deddfwriaethol oedd Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010, a ddisodlwyd yn ddiweddarach gan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Roedd TCTI yn bartneriaeth rhwng Cyngor Bro Morgannwg, Cyngor Caerdydd a Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro gyda chyfrifoldeb statudol ar y cyd dros ddarparu Gwasanaeth Integredig Cymorth i Deuluoedd yn eu rhanbarth.

Yr adroddiad gerbron y Pwyllgor oedd y 9^{fed} Adroddiad Blynyddol a baratowyd yn unol ag a.62 o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 ac a roddodd wybodaeth am effeithiolrwydd y gwaith o ddarparu'r gwasanaeth gan dynnu sylw at unrhyw heriau a fyddai'n effeithio ar ddarparu'r gwasanaeth yn llwyddiannus.

Roedd y TCTI wedi dangos cynnydd sylweddol ers 2017/18 wrth fwrw targedau perfformiad. Roedd teuluoedd yn cael y cymorth cywir ar yr adeg gywir er mwyn effeithio ar newidiadau ymddygiad hirdymor. Parhaodd y tîm, drwy ei frwdfrydedd a'i ymrwymiad, i ddarparu gwasanaeth ardderchog i deuluoedd drwy gyd-gynhyrchu ystyrion, gan arwain at blant yn byw'n ddiogel gartref gyda'u rhieni / gofalwr. Roedd canlyniadau positif o'r gwasanaeth wedi lleihau pryderon diogelu a galluogi blaenoriaethu anghenion plant gyda chanlyniadau cynnar yn dangos gostyngiad yn y galw ar wasanaethau statudol.

Yn dilyn sylwadau'r Swyddogion a chwestiynau dilynol gan y Pwyllgor, ychwanegwyd y pwyntiau cyngor canlynol gan y Swyddogion oedd yn bresennol hefyd:

Nid oedd cymhareb dyrannu ar gyfer y gwasanaeth rhwng y ddau Awdurdod Lleol. Byddai dyraniadau'n cael eu gwneud yn seiliedig ar y cymorth sydd ar gael adeg yr atgyfeiriadau.

No.

O ran galw hanesyddol, roedd wedi'i ddogfennu nad oedd nifer dyraniadau Bro Morgannwg wedi cyrraedd 50% fodd bynnag, roedd dyraniadau wedi mynd y tu hwnt i drydedd gymhareb pe bai dyraniadau wedi'u gwneud yn seiliedig ar y gwahaniaeth maint rhwng ardaloedd yr Awdurdod Lleol.

Roedd atgyfeiriad 'Dim lle' yn atgyfeiriad a dderbyniwyd ac a ystyriwyd yn briodol ond, oherwydd bod yr holl weithwyr IS a CSW yn gweithio gyda theuluoedd, bu'n rhaid ei gau. Ni ddiffiniwyd atgyfeiriadau dim lle chwaith gan gymhareb dyrannu rhwng y ddau Awdurdod Lleol. Cydnabuwyd y byddai'n fuddiol yn y dyfodol i'r Aelodau gael y niferoedd ar gyfer yr atgyfeiriadau dim lle dros nifer o flynyddoedd blaenorol er mwyn deall yn well y galw ar y gwasanaeth ac unrhyw batrymau sy'n codi o fewn ardal Bro Morgannwg.

Roedd y ffordd y derbyniwyd arian i ddechrau ar gyfer yr TCTI ar sail genedlaethol ac felly dros y ddau ranbarth ar sail 50/50 fodd bynnag, o ystyried y gwahaniaeth sylweddol rhwng maint y ddau awdurdod, nid oedd y galw am y gwasanaeth yn gyfartal; roedd hyn wedi'i hollti'n fwy realistig, 70/30. Roedd y swyddogion ym Mro Morgannwg wedi parhau i weithio'n hynod o galed (dros 9 mlynedd) i sicrhau bod y Cyngor yn derbyn 50% o'r ddarpariaeth ond, gyda Bro Morgannwg yn llawer llai na Chaerdydd yn anochel roedd galw'r Cyngor yn llai. Ychydig flynyddoedd ynghynt, roedd Cyngor Bro Morgannwg wedi cynyddu'r cylch gwaith ar gyfer cyflwyno atgyfeiriad mewn ymgais i gynyddu nifer yr atgyfeiriadau a wnaed i'r gwasanaeth gan yr awdurdod i gyd-fynd â'i hawl arian o 50%. Roedd y trefniant gweithredol 'dim lle' yn ddull unigryw i wasanaeth gofal cymdeithasol fodd bynnag, roedd ar waith ar gyfer y Tîm Teuluoedd yn Cyflawni Newid a'r TCTI ac felly byddai'r Cyngor yn parhau i sicrhau ei fod yn ymateb i anghenion Plant yn effeithiol. Byddai angen a nodwyd bob amser yn cael ei flaenoriaethu dros ddyraniad arian.

Heb unrhyw sylwadau na chwestiynau pellach, gwnaeth y Pwyllgor wedyn

ARGYMHELLWYD – Y dylid nodi Adroddiad Blynyddol y Tîm Integredig Cymorth i Deuluoedd ar gyfer 2021/22, fel y nodir yn Atodiad 1 i'r adroddiad.

Rheswm dros yr argymhelliad

Gan ystyried cynnwys yr adroddiad i graffu ar waith y Gwasanaeth Integredig Cymorth i Deuluoedd mewn perthynas â chanllawiau Llywodraeth Cymru.

227 SIARTER GOFALWYR DI-DÂL RHANBARTHOL (CGC) –

Cyflwynodd y Rheolwr Gweithredol dros Ddiogelu a Chanlyniadau'r Gwasanaeth yr adroddiad, a'i bwrpas oedd rhoi trosolwg o waith y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol mewn perthynas â gofalwyr di-dâl gan gynnwys gofalwyr ifanc a chynnig cyfle i'r Pwyllgor Craffu ystyried y Siarter Gofalwyr Di-dâl Rhanbarthol ddrafft a'r Siarter Gofalwyr Ifanc Ranbarthol ddrafft.

No.

Dyweddod y Swyddog, drwy lywodraethu'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a oedd yn cynnwys cynrychiolwyr o Gyngor Bro Morgannwg, Cyngor Caerdydd, Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro a sefydliadau'r trydydd sector, fod Siarteri wedi cael eu cynhyrchu gan y Ffrwd Waith Gofalwyr Di-dâl Rhanbarthol yn amlinellu ymrwymadau arfaethedig y Cyngor i gefnogi Gofalwyr Di-dâl a Gofalwyr Ifanc.

Roedd aelodau'r ffrwd waith wedi gweithio gyda gofalwyr di-dâl a'r bobl y maent yn gofalu amdanynt, er mwyn deall eu profiadau a'r hyn sy'n bwysig iddynt. Roeddent wedi ystyried yr hyn roedd gofalwyr di-dâl a gofalwyr ifanc wedi ei ddweud wrthynt, deddfwriaeth briodol, a'r cyd-destunau a'r adnoddau lleol. Gyda'i gilydd roeddent wedi cynhyrchu dwy set o ymrwymadau oedd yn nodi'r cyfeiriad arfaethedig ar gyfer cynllunio a datblygu cymorth i bob gofalwr di-dâl a gofalwr ifanc ledled y rhanbarth dros y pum mlynedd nesaf.

Amlinellodd y Siarter Gofalwyr Di-dâl (Atodiad 1) a'r Siarter Gofalwyr Ifanc (Atodiad 2) y weledigaeth a'r wyth ymrwymiad yr ystyriwyd eu bod yn hanfodol er mwyn cefnogi gofalwyr di-dâl a gofalwyr ifanc nawr ac yn y dyfodol, a rhoddon nhw gyfarwyddyd o ran datblygu cymorth iddynt ledled Caerdydd a Bro Morgannwg.

Ar ôl ystyried cynnwys yr adroddiad, gwnaeth y Pwyllgor wedyn

ARGYMHELLWYD -

- (1) Nodi'r Siarter Gofalwyr Di-dâl Rhanbarthol drafft, fel y nodir yn Atodiad 1 i'r adroddiad.
- (2) Y dylid nodi'r Siarter Gofalwyr Ifanc Rhanbarthol drafft, fel y'i nodir yn Atodiad 2 i'r adroddiad.
- (3) Y dylid nodi'r ddogfen ategol ddrafft sy'n cael ei chynhyrchu i gefnogi'r Siarteri, fel y'i hamlinellir yn Atodiad 3 i'r adroddiad.

Rhesymau dros yr argymhellion

(1-3) Gan ystyried cynnwys yr adroddiad, asesu'r wybodaeth gefndirol gysylltiedig a fydd yn cyd-fynd â'r Siarteri cyn i'r Cabinet ei chymeradwyo wedyn.

228 ADRODDIAD MONITRO CYNLLUN CYFLENWI BLYNYDDOL: PERFFORMIAD CHWARTER 1 2022/23 (CGC) –

Cyflwynodd yr adroddiad ar berfformiad gynnydd y Cyngor yn Chwarter 1 (Ch1) (1 Ebrill 2022 i 30 Mehefin 2022) tuag at gyflawni ymrwymadau ei Gynllun Cyflawni Blynnyddol (2022/23) yn unol ag Amcanion Lles ei Gynllun Corfforaethol.

Priodolwyd statws perfformiad Gwyrdd i bob un o 4 Amcan Lles y Cynllun Corfforaethol yn Ch1 i adlewyrchu'r cynnydd da a wnaed hyd yma o ran cyflawni ymrwymadau Cynllun Cyflawni Blynnyddol y Cyngor ar gyfer 2022/23.

No.

Mewn perthynas â'r gweithgareddau arfaethedig o fewn cylch gwaith y Pwyllgor Craffu Byw'n Iach a Gofal Cymdeithasol, priodolwyd statws perfformiad Gwyrdd i 94% (107 allan o 114), a phriodolwyd statws Coch i 6% (7). O'r 4 mesur a adroddwyd, priodolwyd statws perfformiad Gwyrdd i 75% (3), a statws Coch i 25% (1).

Heb unrhyw sylwadau na chwestiynau, gwnaeth y Pwyllgor wedyn

ARGYMHELLWYD -

(1) Nodi'r canlyniadau perfformiad a'r cynnydd tuag at gyflawni ymrwymadau Cynllun Cyflawni Blynyddol 2022/23, sy'n cyd-fynd ag Amcanion Llesiant Cynllun Corfforaethol y Cyngor o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor.

(2) Y dylid nodi'r camau adferol sydd i'w cymryd i fynd i'r afael â meysydd o danberfformio ac i fynd i'r afael â'r heriau allweddol a nodwyd o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor.

Rhesymau dros yr argymhellion

(1) Sicrhau bod y Cyngor yn dangos yn glir y cynnydd sy'n cael ei wneud tuag at gyflawni ei ymrwymadau yng Nghynllun Cyflawni Blynyddol 2022/23 sydd â'r nod o wneud gwahaniaeth cadarnhaol i fywydau dinasyddion Bro Morgannwg.

(2) Sicrhau bod y Cyngor yn asesu ei berfformiad yn effeithiol yn unol â'r gofyniad i fodloni ei ofynion perfformiad, fel yr amlinellir yn Neddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ac sy'n adlewyrchu gofyniad Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), 2015, felly mae'n gwneud y cyfraniad mwyaf posibl at gyflawni'r nodau llesiant ar gyfer Cymru.